

Pedwar o bobl wedi'u cyhuddo gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn ymchwiliad yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd i achosion o gamgyfleu eog mwg

Aethant i Lys Ynadon Caerefrog yn dilyn ymchwiliad hir a chymhleth gan Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Roeddent wedi'u cyhuddo gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) o gynllwynio i gyflawni twyll trwy honni bod cynhyrchion eog a gyflenwyd gan Bleiker's Smoke House Ltd yn eog o'r Alban er bod y cynnyrch a gyflenwyd yn cynnwys eog yn gyfan gwbl neu'n rhannol o Norwy.

Mae'r NFCU yn gweithio gyda CPS yn ogystal â'r busnes, ac mae'r achos yn mynd trwy'r llys.

Mae pedwar o bobl wedi cael eu cyhuddo gan y CPS yn Llys Ynadon Efrog, mewn cysylltiad â'r achos hwn, yn dilyn ymchwiliad hir a chymhleth gan yr NFCU i dwyll bwyd. Mae'r achos hwn bellach wedi'i drosglwyddo i Lys y Goron Teeside, a fydd yn cynnal gwrandawriad ar 6 Chwefror 2026.

Neil Castle, dirprwy Bennaeth NFCU yr ASB

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi awdurdodi erlyn pedwar unigolyn am drosedd o gynllwynio i gyflawni twyll drwy gamgyfleu.

Mae'r troseddau hyn, a gyflawnwyd rhwng 20 Awst 2021 a 30 Mawrth 2022, yn ymwneud â chamwerthu eog o'r Alban pan oedd yr eog yn ôl pob tebyg yn cynnwys eog o Norwy.

Mae ein herlynwyr wedi gweithio'n agos gyda swyddogion Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd sydd wedi cynnal yr ymchwiliad.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn atgoffa pawb dan sylw fod achos troseddol yn erbyn y diffynyddion hyn ar waith a bod ganddynt hawl i dreial teg. Mae'n hynod bwysig na ddylid adrodd ar yr achos, cynnig sylwebaeth na rhannu gwybodaeth ar-lein a allai ragfarnu'r achos hwn mewn unrhyw ffordd.

Andrew Cant, Erlynydd Arbenigol ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron